



Cyngor **Abertawe**  
**Swansea Council**

## Y Gyfarwyddiaeth Addysg

Y Ganolfan Ddinesig, Heol Ystumllwynarth,  
Abertawe, SA1 3SN

[www.abertawe.gov.uk](http://www.abertawe.gov.uk)

*Gofynwch am:*

*Ffôn:*

*E-Bost:*

*Ein Cyf:*

*Eich Cyf:*

*Dyddiad:*

21 Hydref 2020

Annwyl Rieni/ Warcheidiaid

Mae ailagor ysgolion yn Abertawe yn ddiogel wedi bod yn llwyddiannus yn ystod hanner tymor cyntaf y flwyddyn ysgol.

Pan ysgrifennais atoch ym mis Medi, fe'ch atgoffais o bwysigrwydd ymbellhau cymdeithasol y tu allan i'r ysgol a'r angen i gymryd rhan mewn profi, olrhain a diogelu yn ogystal â'r holl gynllunio ar gyfer diogelwch o fewn ysgolion.

Yr ydym wedi datblygu dull gofalus iawn o wrando ar gyngor Profi Olrhain Diogelu (TTP) y GIG yma yn Abertawe. O ganlyniad, nid yw ysgolion Abertawe yn ffynhonnell trosglwyddo Covid-19 ac mae plant a phobl ifanc yn cael eu hamddiffyn pan fyddant yn yr ysgol.

Mae'r holl blant a phobl ifanc yn dilyn rheolau'r ysgol ac yn ofalus ynghylch golchi dwylo a gwisgo mwgwd wyneb os bydd angen. Fodd bynnag, amharir ar ysgolion a darparwyr addysg pan ddaw achos a drosglwyddir yn y gymuned i mewn o'r tu allan. A gaf eich annog unwaith eto i gadw llygad barcud ar symptomau ac i ddilyn y rheolau, yn enwedig gan ein bod bellach yn mynd i mewn i'r cyfnod clô byr.

Mae Abertawe'n disgwyl i hanner tymor redeg fel arfer ac y bydd pob ysgol gynradd, ysgol arbennig a'r uned cyfeirio disgyblion yn aros ar agor yn ystod yr wythnos sy'n dechrau Tachwedd 2. Disgwylwn y bydd plant a ddylai fod yn yr ysgol yn mynychu o Dachwedd 2 ymlaen, ac mae hyn hefyd yn cynnwys blynyddoedd 7 ac 8 mewn ysgolion uwchradd.

Mewn ysgolion uwchradd, dim ond blwyddyn 9 ac uwch fydd yn aros gartref am yr wythnos sy'n dechrau Tachwedd 2. Fodd bynnag, bydd pob myfyriwr sy'n sefyll arholiadau mewn ysgolion uwchradd yn cael mynediad i arholiadau. Bydd eich ysgol yn dweud mwy wrthy, os oes angen i chi wybod am gyfleusterau addysgu arbenigol mewn ysgolion uwchradd, neu grwpiau blwyddyn arholi a sesiynau adolygu.

Ar draws Abertawe, bydd disgwyl i holl staff yr ysgol fod yn yr ysgol yn ystod yr wythnos y dechrau ar 2 Tachwedd. Bydd eich ysgol uwchradd yn gallu dweud mwy wrthy am



sut y byddant yn gweithredu addysgu a dysgu ar gyfer disgyblion Blwyddyn 9 ac uwch am y pum diwrnod ysgol, pan fydd cyfnod clô byr yn effeithio arnynt.

Bydd y ddarpariaeth prydau ysgol am ddim yn parhau yn ystod holl wyliau'r ysgol rhwng nawr a chan gynnwys y Pasg i bawb sydd â hawl. Bydd disgyblion Blwyddyn 9 ac uwch yn derbyn parcel bwyd neu daliad BACS am yr wythnos ychwanegol nad ydynt yn yr ysgol yn dechrau ar Dachwedd 2. Bydd disgwyl i ddisgyblion sy'n mynychu arholiadau ddod â'u pecyn cinio eu hunain. Bydd cludiant ysgol blynnyddoedd 7 ac 8 yn gweithredu fel arfer ac i ddisgyblion sy'n sefyll arholiad.

Ni allaf bwysleisio'n ddigon cryf fod pob athro, cynorthwyydd addysgu, staff cymorth a phennaeth wedi llwyr ymroi, a mwy, i gynnal parhad i addysg eich plentyn. Hoffwn bwysleisio hefyd pa mor bwysig yw hi i bob rhiant a gofalwr feddwl ddwywaith am gynlluniau cymdeithasol y tu mewn a'r tu allan i'w cartrefi yn ystod y pythefnos nesaf a thu hwnt. A allaf eich atgoffa hefyd, os ydych yn gollwng neu'n casglu plant o'r ysgol, yna mae angen ichi ddilyn pellhau cymdeithasol ac er ei fod yn demtasiwn a fyddech cystal â pheidio ymgynnull wrth gatiâu'r ysgol.

Mae plant a phobl ifanc wedi gweld digon o darfu ar eu haddysg i bara am oes a rhaid inni beidio â'i ddifetha mwyach. Meddylwch ddwywaith am unrhyw gamau y gallech eu cymryd, yn ddiniwed, yn wyneb feirws anweledig. Nid ydym am gael rhagor o aflonyddwch na chyfnodau cloi byr. 'Rydym am barhau i ddysgu a chadw'n cymunedau'n ddiogel. Heriwch unrhyw ymddygiad sy'n ein hatal rhag cyrraedd ein nod cyffredin o "Addysg ragorol i bawb" yma yn Abertawe.

Yn gywir



Helen Morgan-Rees  
Cyfarwyddwr Addysg Interim